

Meaningful Chocolate 2016
Adnoddau Adfent

Gwasanaeth 2:

Gŵyl y Geni:
Ymdeimlad o berthyn
CA3-4

NODIADAU

i gyd-fynd â'r cyflwyniad PowerPoint

Bwriad

Adrodd Hanes y Nadolig a'i ddefnyddio fel man cychwyn i edrych ar y cysyniad o 'berthyn'

Mae'r nodiadau yn:

- adrodd hanes Gŵyl y Geni gan ddefnyddio lluniau Alida Massari a ddarparwyd gan y 'Meaningful Chocolate Company' yn eu 'Calendr Adfent go iawn', 2016
- trafod yr ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth (identity)
- ystyried be sy'n digwydd pan mae pobl yn colli eu cartrefi (cael eu dadleoli) – colli eu hunaniaeth
- ystyried sut oedd lesu'n teimlo...nad oedd o'n perthyn chwaith.

Hawlfraint:

Lluniau gan Alida Massari o'r 'Calendr Afent go iawn', 2016, lluniau eraill yn y Parth Cyhoeddus/ Public Domain neu oddi ar wefan www.freeimages.com

Adnoddau:

PowerPoint

Nodiadau, pwyntiau meddwl/myfyrio

Gwybodaeth a syniadau am waith pellach.

Technegol:

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r gwaith cyn ei ddefnyddio.

Mae cyfle i chi roi enw'ch Ysgol ayb. ar y sleid gyntaf.



Gŵyl y Geni: Ymdeimlad o berthyn

Cyflwyniad

Efallai ein bod ni mor gyfarwydd â stori'r Nadolig nad ydyn ni'n canolbwyntio ar y manylion - beth am i ni edrych ar yr hanes unwaith eto?

Dyma hanes geni Iesu. Doedd o ddim yn fabi cyffredin. Dim o gwbl. Doedd dim byd cyffredin nac arferol amdano.

Mwy na dwy fil o flynyddoedd yn ôl yng ngwlad Israel roedd y bobl yn drist iawn. Roeddent yn drist



am fod y Rhufeiniaid yn rheoli eu gwlad. Roedden nhw'n casáu cael eu rheoli gan y Rhufeiniaid. Roedden nhw eisiau i Dduw yrru brenin i'w rhyddhau nhw.



Roedd Mair a Joseff yn byw yn Nasareth. Un diwrnod daeth yr angel Gabriel i siarad â Mair. Roedd Mair wedi dychryn ond dwedodd Gabriel wrthi i beidio bod ofn. Dwedodd Gabriel wrth Mair, “Rwyd ti'n mynd i fod yn feichiog, a byddi di'n cael mab. Iesu ydy'r enw rwyd i'w roi iddo. Bydd yn ddyn pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!”



Roedd Joseff yn poeni'n fawr pan glywodd fod Mair yn disgwyl babi. Doedd o ddim yn gwybod os dylai o ei phriodi hi.



Daeth angel Duw at Joseff mewn breuddwyd a dweud wrtho, “Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwyd i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau.”



Ar yr un adeg, penderfynodd yr Ymerawdwr Rhufeinig gynnal cyfrifiad. Roedd o eisiau cyfri'r bobl er mwyn gweld faint o drethi ddylai o dderbyn! Roedd rhaid i Mair a Joseff deithio i Fethlehem i gael eu cyfri. Roedd y dre' yn brysur iawn am fod cymaint o bobl wedi gorfod teithio yno i gael eu cyfri.



Cannoedd o filltiroedd i ffwrdd fe welodd y gwŷr doeth seren arbennig yn yr awyr. Roedden nhw'n gyffrous, 'Mae seren newydd yn golygu brenin newydd', medden nhw. Fe aethon nhw ar gefn eu camelod a dilyn y seren.



Tybed be' mae pobl yn rhoi'n anrhegion i frenin? Fe baciodd y gwŷr doeth anrhegion arbennig iawn - fe roddodd un aur i'r brenin newydd; thus oedd anrheg un arall sef powdr costus oedd yn arogl'i'n hyfryd wrth gael ei losgi. Roedd thus yn cael ei ddefnyddio pan oedd pobl yn gweddïo.



Anrheg arall oedd myrr – powdr costus arall oedd yn cael ei ddefnyddio i wneud persawr.



Fe deithiodd y gwŷr doeth i balas Herod y brenin - roedden nhw'n meddwl y byddai'r brenin newydd yn cael ei eni mewn palas. Fe ofynnon nhw, 'Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dŷn ni yma i dalu teyrnged iddo.'

Pan glywodd y Brenin Herod hyn roedd wedi cynhyrfu'n lân. Dwedodd wrth y gwŷr doeth,

“Gadewch i mi wybod pan ddowch o hyd iddo, er mwyn i mi gael mynd i dalu teyrnged iddo hefyd.” Ond bwriad Herod oedd lladd y baban.



Aeth y gwŷr doeth ymlaen â'u taith. Dyma'r seren yn mynd o'u blaen, nes iddyn nhw gyrraedd Bethlehem. Rhybuddiodd Duw nhw mewn breuddwyd i beidio mynd yn ôl at Herod, felly dyma'r gwŷr doeth yn teithio yn ôl i'w gwlad eu hunain ar hyd ffordd wahanol.



Roedd Mair a Joseff a nifer fawr o deithwyr eraill wedi cyrraedd Bethlehem i gael eu cyfri. Doedd 'na ddim digon o ystafelloedd i bawb. "Mae Mair yn disgwyl babi," meddai Joseff. "Oes 'na le i ni yn rhywle?" plediodd. Roedd Mair a Joseff yn flinedig iawn. O'r diwedd fe gawson nhw le mewn stabl. Roedd y stabl yn sych a chynnes. Ond roedd rhaid iddyn nhw rannu gyda'r anifeiliaid. Ond yn fuan

iawn roedd rhywbeth pwysicach ar eu meddyliau – roedd y babi ar fin cael ei eni.



Roedd hi'n noson dawel ar y bryniau uwchlaw Bethlehem. Roedd y bugeiliaid allan yn gwyllo'u defaid. Yn sydyn, ymddangosodd angel yn yr awyr. Roedd gan yr angel newyddion da!



Dwedodd wrth y bugeiliaid, "Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem. Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi ei lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn preseb." Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw!



Dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, “Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi ei ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd.” Felly i ffwrdd â nhw!



Dyma nhw'n dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn preseb. Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma. Y plentyn oedd eu brenin newydd – yr un oedden nhw wedi bod yn disgwyl amdano!



Ble cawsoch chi eich geni? Nid mewn stabl debyg iawn! Ond dyna le ganwyd Iesu - yng nghanol yr anifeiliaid. Roedd y bugeiliaid yn dlawd tra bod y gwŷr doeth yn gyfoethog - ond doedd dim gwahaniaeth y noson honno. Un peth oedd yn bwysig - sef eu bod nhw wedi teithio i addoli'r brenin newydd ac wedi mynd ar eu gliniau o'i flaen. Roedden nhw eisiau ei

addoli a diolch iddo am ddod i'r byd.

Syml ond dwys

Dyna hanes y Nadolig yn ei hanfod. Ar un llaw mae'n stori syml iawn. Dydy'r Beibl ddim yn rhoi llawer iawn o fanylion. Ond er bod y stori'n un syml, mae o hefyd yn hanes dwys a difrifol.

Gwahanol...ac yn achos embaras?

Mae hanes geni Iesu yn wahanol i hanes pob genedigaeth arall. Yn wir, mae hanes geni pawb yn wahanol. Fe fydd y rhan fwyaf ohonoch chi wedi cael eich geni'n ddiraffferth yn yr ysbyty. Efallai bod rhai ohonoch chi wedi cyrraedd yn hwyr ac eraill wedi cyrraedd yn gynnar. Falle' bod un neu ddau ohonoch chi wedi cael eich geni dramor neu mewn

amgylchiadau peryglus. Ac efallai bod rhai ohonoch chi wedi cael eich geni ar ddiwrnod Nadolig.

'Falle eich bod chi'n meddwl bod trafod genedigaeth yn *embarrassing* a bod yn well ganddoch chi beidio meddwl am y peth o gwbl.

(Mae'r sleidiau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg ar y Ppt).



Sioc!

Mae'n rhaid cydnabod bod pethau anodd yn digwydd weithiau. Fedrwch chi ddychmygu eistedd gyda'ch rhieni a gorfod dweud wrthyn nhw eich bod chi'n feichiog? Neu fod eich cariad yn feichiog? Beth fyddai ymateb eich rhieni? Mae beichiogrwydd annisgwyl yn fater difrifol ac yn anodd iawn i'w wynebu hyd yn oed heddiw. Wrth feddwl am hanes y Nadolig mae'n bwysig ein bod ni'n deall bod Mair yn ddi-briod ac yn feichiog.

Dyna'r peth gwaethaf oedd yn gallu digwydd i ferch ifanc yn y cyfnod hwnnw. Roedd yn warth arni hi a'i theulu. Fe fyddai ei rhieni hi mewn sioc ac yn poeni amdani hi a'i dyfodol.

Ond yn waeth fyth, dwedodd Mair ei bod yn wryf (virgin) ac mai Duw oedd tad y plentyn!



Oedd posib i bethau waethygu?

Wel, yn anffodus oedd! Be ddigwyddodd nesaf? Cyfrifiad a thaith i Fethlehem! Ganwyd y baban mewn stabl, a cafodd ei roi i orwedd mewn preseb, sef cafn bwydo anifeiliaid. Oes, mae yna lefydd gwaeth i eni babi - gewch chi chwilio am hanes y wraig a roddodd enedigaeth mewn coeden er mwyn osgoi llifogydd a'r crocodeils oedd yn y dŵr.

Ar ôl i'r gwŷr doeth gyrraedd gyda'u hanrhegion drud, fe waethygodd pethau unwaith eto wrth i Herod wylltio ar ôl clywed am enedigaeth brenin newydd. Fe yrrodd ei fyddin i ladd pob bachgen yn yr ardal oedd yn ifancach na 2 flwydd oed.



lesu - ffoadur

Roedd yn rhaid i deulu lesu ddianc am eu bywydau a byw fel ffoaduriaid yn yr Aifft. Dim ond ar ôl i'r Brenin Herod farw oedden nhw'n gallu dychwelyd i'w gwlad.

Mae yna lawer o elfennau yn Hanes y Geni sy'n gyfoes iawn. Rydyn ni i gyd wedi gweld y lluniau o ffoaduriaid yn cyrraedd Ewrop oherwydd **rhyfeloedd yn y Dwyrain Canol**



Edrychwch ar y bobl yn y llun. Rydyn ni'n gwybod eu bod angen cymorth – ond rydyn ni hefyd yn gofyn y cwestiwn 'Ai'n problem ni yw hyn go iawn?'



Ble maen nhw'n perthyn?

Yn y gorffennol roedden ni'n derbyn llawer iawn o ffoaduriaid yn y gorllewin. Mae llawer ohonyn nhw wedi cyfrannu i'n cymdeithas wrth weithio ym myd gwyddoniaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau.


Rydyn ni wedi eu derbyn nhw, a'u croesawu nhw. Oherwydd hyn maen nhw wedi llwyddo i wneud eu cartrefi yma gyda ni.

Ond mae yna gymaint ohonyn nhw. Sut ydyn ni'n am ymdopi â'r sefyllfa?

Cwestiwn

Be ydyn ni'n feddwl wrth ddweud ein bod ni'n perthyn i ardal neu wlad neu deulu?





Dydy o ddim bob amser yn hawdd penderfynu lle ydyn ni'n perthyn. Gall rhywun ddweud, "Dw i 'di cael fy ngeni yng Nghymru felly Cymro ydw i." Ond beth am y rhai sy'n dweud, "Ges i fy ngeni yn Lloegr, ond dw i wedi byw yng Nghymru ar hyd fy oes - dw i'n teimlo fel Cymro. Dyma fy ngwlad." Be neu bwy, sy'n penderfynu os ydyn ni'n perthyn ai peidio?



Mae yna nifer o ffactorau pwysig.

Teulu



Ffrindiau



Ysgol – rydyn ni'n treulio llawer o amser yma (yno).



Ein cymuned leol.



Y gweithgareddau rydyn ni'n ei gwneud gydag eraill.



Ein gwerthoedd a'r ffordd rydyn ni'n byw ein bywydau.



Ac wrth gwrs.... cariad

Mae'n bwysig ein bod ni'n teimlo ein bod ni'n perthyn; bod yna le i ni yn ein cymdeithas.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gallu ysgwyddo cyfrifoldebau a gwarchod y pethau a'r llefydd



sy'n bwysig i ni. Ond sut y gall unrhyw beth mewn gwirionedd berthyn i ni? Wnaethon ni ddim dewis ble cawson ni'n geni. Wnaethon ni ddim dewis ein ffordd o fyw. Wnaethon ni ddim dewis sut dŷn ni'n edrych, na'n genynnau, na hyd yn oed ein rhieni. Stiwardiaid ydyn ni mewn gwirionedd – yn gofalu am bopeth sydd ganddon ni, y pethau rydyn ni wedi eu derbyn. Fedrwn ni ddim mynd â dim byd gyda ni pan dŷn ni'n marw.

Meddylwch am y ffoaduriaid? Wnaethon nhw ddewis cael eu geni a'u magu mewn ardal beryglus? Oedden nhw wir eisiau gadael eu cartrefi a'u gwald? Ble maen nhw'n perthyn?

Beth yw eu hawliau?



Ydy eu hawliau nhw'r un peth â'n hawliau ni?

Dydy'r cwestiynau yma ddim yn rhai hawdd. Beth bynnag dŷn ni'n feddwl am hanes geni Iesu, mae'r stori yn gyfoes iawn. Yn ystod cyfnod y Nadolig fe allwn ni roi'n ffocws ar bethau sy'n digwydd yn ein byd ni heddiw, ac atgoffa'n hunain fod yna lawer o

bobl sydd angen teimlo eu bod yn perthyn, a chael eu derbyn fel aelodau o'n cymdeithas.

Un cwesiwn arall i orffen – ym mhle mae Iesu'n perthyn?

Mae hwn yn gwestiwn diddorol. Oedd Iesu'n teimlo ei fod o'n perthyn i un ardal benodol? Efallai y byddech chi'n disgwyl iddo ddweud, "Mab Joseff ydw i", neu "Dw i'n perthyn i urdd y seiri coed", neu "Iddew ydw i", neu "Mae fy ffrindiau a fy nheulu i gyd o Galilea."

Ond, mae'r Beibl yn dysgu'n glir mai o wryf / virgin y ganwyd Iesu - genedigaeth wyrthiol - ac roedd Iesu'n disgrifio ei hun fel mab Duw.

Fe roddodd heibio gyfoeth a statws yn y nefoedd i ddod i'r byd.

Yn Mathew 8:19-20 rydyn ni'n darllen am Iesu'n ateb un o'r arbenigwyr oedd yn siarad gydag ef,

"Yna dyma un o'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn dod ato a dweud, "Athro, dw i'n fodlon dy ddilyn di ble bynnag byddi di'n mynd." Atebodd Iesu, "Mae gan Iwynogod ffeuwau ac adar nythod, ond does gen i, Mab y Dyn, ddim lle i orffwys."

Ydy hyn yn cefnogi stori Mair – ei bod hi'n wryf ac mai mab Duw oedd Iesu?

Mae hanes y Geni Gwyrthiol yn codi pob math o gwestiynau da ynghylch â'n hymdeimlad o berthyn, a'r angen i garu, cefnogi a derbyn pobl eraill.

Fe weddiwn i orffen:

Gweddïwn:

Wrth i ni feddwl am amgylchiadau Iesu ar adeg ei enedigaeth - ynghanol yr anifeiliaid mewn stabl dlawd, helpa ni i weld potensial pob geni newydd. Helpa ni i beidio ag anwybyddu'r plant hynny sydd heb ddim, y rhai sy'n byw mewn amodau diflas, heb fwyd a heb ddillad addas. Helpa ni i gofio am y plant sy'n oer a newynog; ac am y plant sydd angen cymorth meddygol.

Helpa ni i gofio am y ffoaduriaid, sydd wedi dianc rhag peryglon rhyfel ac erledigaeth; ac i groesawu'r rhai sydd mewn angen, a chofio eu bod nhw hefyd angen perthyn. Helpa ni i gofio geiriau Iesu yn y Beibl, 'Rwyf i garu dy gymydog fel rwyf ti'n dy garu dy hun.

Amen